



LLANELLI - SIR GÂR - CYMRU

Pentre Awel

LLANELLI - CARMARTHENSHIRE - WALES

Pentre Awel – Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg

Rhagarweiniad

Mae Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg (WLAP) yn nodi ac yn olrhain cyfleoedd a chamau gweithredu allweddol mewn perthynas â'r Gymraeg ar draws ystod eang o feysydd gwasanaeth a swyddogaethau Pentre Awel. Mae'n amlinellu rhanddeiliaid allweddol i ymgysylltu a gweithio gyda nhw, yr amserlen a'r adnoddau sydd eu hangen.

Datganiad o Genhadaeth

“Creu datblygiad cynhwysol lle mae pobl o bob oed a gallu yn cael cyfleoedd i weithio, dysgu, byw a chwarae yn Gymraeg”

Cyd-destun Strategol

Bwriedir i Gynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg a'r fethodoleg a fabwysiadwyd ategu strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg. Yn benodol, yn unol â mentrau ehangach y Cyngor, nod Pentre Awel yw cyfrannu at y tair thema strategol: (i) cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg; (ii) cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; a (iii) chreu amodau ffafriol i'r Gymraeg.

Mae'r cynllun a ganlyn yn mapio aliniad gwasanaethau a swyddogaethau Pentre Awel â'r tair thema strategol. Fel y dangosir, mae cyfle i fynd i'r afael â phob un o'r themâu strategol drwy 'ecosystem' Pentre Awel gyda'r potensial ar gyfer y gweithgaredd mwyaf yn thema dau – cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.



1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

- Addysg, Sgiliau a Hyfforddiant (*Parth 1*)
- Ymgysylltu ag Ysgolion (*Parthau 1,2,3,4*)
- Byw â Chymorth (*Parthau 2 a 3*)
- Gofal Ychwanegol a Chartref Gofal (*Parth 2*)
- Tai Fforddiadwy a Chymdeithasol (*Parth 2*)
- Tai (*Parth 4*)



2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

- Hamdden (*Parth 1*)
- Iechyd (*Parth 1*)
- Busnes (*Parthau 1 a 3*)
- Ymchwil ac Arloesi (*Parthau 1 a 3*)
- Byw â Chymorth (*Parthau 2 a 3*)
- Gwesty a Thai (*Parth 4*)
- Ymgysylltu cymunedol (*Parthau 1,2,3,4*)



3. Creu amodau ffafriol

- Seilwaith / cyfleusterau (*Parthau 1,2,3,4*)
- Caffael (*Parthau 1,2,3,4*)
- Rhaglen buddion cymunedol (*Parthau 1,2,3,4*)
- Addysg Bellach ac Uwch (*Parth 1*)
- Deori a chymorth busnes (*Parthau 1 a 3*)

O fewn Pentre Awel ac ar draws y gwasanaethau sydd i'w darparu gan denantiaid, mae cyfle pellach i roi ar waith gyfarwydddebau polisi a strategol ehangach, gan gynnwys Mwy na Geiriau o ran iechyd a gofal cymdeithasol, i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg a chreu diwylliant o berthyn/cydluniad. Dylai hyn gyd-fynd â chynlluniau'r Gymraeg a pholisïau tenantiaid o fewn Parth 1 a chyfleusterau eraill i'w cyflawni yn y dyfodol.

Yn y dyfodol, bydd y cynllun gweithredu hefyd yn rhoi sylw dyledus i Strategaeth Hybu'r Gymraeg y sir, gan gydnabod bod datblygiad yr iaith Gymraeg yn mynd 'law yn llaw' â thwf economi Sir Gaerfyrddin. Mae Pentre Awel yn anelu at greu amodau ffafriol i ddefnyddio, hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y llu o wasanaethau gwahanol sydd i'w lleoli ar y safle gyda golwg ar sefydlu'r Gymraeg fel iaith i bawb – hynny yw boed yn fyfyrwr, preswlydd, busnes, athro, ymchwilydd, claf, mabolgampwr neu dwrist i i Bentre Awel.

Cydnabyddir bod angen dull cydweithredol gyda rhanddeiliaid ar draws y sir i gasglu gwybodaeth a phrofiadau byw sefydliadau a thrigolion lleol, gyda'r bwriad o fanteisio i'r eithaf ar effaith Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg. O'r herwydd, mae'r Swyddfa Rheoli Prosiectau wedi ymgysylltu ag aelodau Fforwm Strategol y Gymraeg a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae'n croesawu barn ac awgrymiadau aelodau a rhanddeiliaid ehangach.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Cynhaliwyd Asesiad lefel uchel o'r Effaith ar y Gymraeg (atodedig) i:

- Nodi effaith gymdeithasol, economaidd a diwylliannol bosibl Pentre Awel ar yr iaith Gymraeg
- Darparu llinell sylfaen ddefnyddiol ar gyfer datblygu camau gweithredu ac ymyriadau mewn ymateb i unrhyw effeithiau cadarnhaol a negyddol a nodwyd, gyda'r nod o osgoi neu liniaru unrhyw ganlyniadau negyddol a gwella'r manteision cadarnhaol
- Llywio polisi/strategaeth, cynllunio a darparu gwasanaethau ym Mhentre Awel
- Ategu ymgysylltu â rhanddeiliaid

Llywodraethu

Cynigir y bydd Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd Bwrdd Prosiect Pentre Awel i sicrhau goruchwyliaeth ac atebolrwydd priodol. Mae Bwrdd y Prosiect yn arwain y strwythur llywodraethu ar gyfer Pentre Awel ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth uwch-swyddogion o Gyngor Sir Caerfyrddin a rhanddeiliaid y prosiect.

Yn ogystal, bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei integreiddio i ffrydiau gwaith y prosiect i lywio eu rhaglen waith i'r dyfodol a hwyluso'r gwaith o gydgysylltu gweithgaredd mewn perthynas â'r Gymraeg. Ffrydiau gwaith y prosiect yw Hwb

Llesiant (hamdden); Iechyd a Llesiant; Addysg, Sgiliau a Hyfforddiant; Byw â Chymorth a Thai; ac Ymchwil ac Arloesi.

Cyd-destun Demograffig

Mae gan Bentre Awel gyfle unigryw i ymateb i rai o'r tueddiadau demograffig a nodwyd yng Nghyfrifiad 2021 o ran iaith, poblogaeth sy'n heneiddio a mudo. Er bod dadansoddiad demograffig llawn y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn, mae prif ddangosyddion allweddol yn dangos, yn y cyfnod cyfrifiad deng mlynedd (2011 i 2021), y bu gostyngiad bach yng nghyfran poblogaeth Sir Gaerfyrddin sy'n defnyddio'r Gymraeg (siarad, darllen, ysgrifennu a/neu ddeall Cymraeg), er bod y sir yn parhau yn y chwarter uchaf yn y mesurau allweddol. Mae gan Sir Gaerfyrddin boblogaeth fwy amrywiol ac amlddiwylliannol, gyda chynnydd yn nifer y trigolion a aned y tu allan i'r DU, yn enwedig o Ewrop (Gwlad Pwyl a Rwmania), y Dwyrain Canol ac Asia ac Affrica.

At hynny, gyda bron i un rhan o bump (17.9% / 31,974) o boblogaeth breswyl Sir Gaerfyrddin (5+ oed) wedi'u nodi fel myfyriwr (plant ysgol a myfyriwr amser llawn), mae hyn yn dystiolaeth o'r cyfle i gymryd camau ystyrlon i gefnogi thema strategol gyntaf Llywodraeth Cymru - cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg – sy'n canolbwyntio ar ddatblygu a chynnal sgiliau trwy addysg a hyfforddiant.

I'r gwrthwyneb, mae bron i chwarter (24%; 45,400) o boblogaeth Sir Gaerfyrddin yn 65+ oed, sy'n dangos pwysigrwydd themâu strategol dau a thri – cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a darparu'r seilwaith cywir yn erbyn cefndir o boblogaeth sy'n heneiddio i sicrhau y gall oedolion hŷn sgwrsio yn eu dewis iaith a derbyn gwasanaethau yn Gymraeg (y 'cynnig rhagweithiol' a amlinellir yn *Mwy Na Geiriau*).

Gan fod data ward lleol bellach ar gael, bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i helpu i lunio a datblygu'r Cynllun Gweithredu.

Pentre Awel – Cynllun Gweithredu'r Iaith Cymraeg / Welsh Language Action Plan

| Gweithgaredd | Disgrifiad/Trosolwg | Camau gweithredu/Cyfleoedd | Rhanddeiliaid/Adnoddau | Diweddariad |
|-------------------|---|--|---|---|
| CYFATHREBU | | | | |
| Cyfathrebu | Fel arweinydd y prosiect, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn gyfrifol am yr holl weithgarwch cyfathrebu a marchnata ar draws llwyfannau traddodiadol (print) a digidol. | <ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr holl gyfathrebu a marchnata yn Gymraeg ac yn Saesneg • Sicrhau cydymffurfiaeth trwy'r Grŵp Cyfathrebu • Tîm Polisi i adolygu a chynghori ar Gynllun Cyfathrebu Pentre Awel a'r Protocol Cyfryngau i sicrhau addasrwydd. Cynllun Cyfathrebu drafft i'w rannu wythnos dechrau 11 Hydref. • Grŵp Cyfathrebu i edrych sut y gellir 'lleoleiddio' cyfathrebiadau i hyrwyddo a thargeddu mentrau / negeseuon penodol at siaradwyr Cymraeg (e.e. datblygu sgiliau) • Swyddog Marchnata i gyfathrebu gyda'r Tîm Polisi ar yr Iaith Gymraeg | <p>Cyngor Sir Caerfyrddin - yn arwain</p> <p>Grŵp Cyfathrebu - Cyngor Sir Caerfyrddin, Hamdden, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Prifysgol Caerdydd, PCDDS</p> | <p>Cynllun Cyfathrebu wedi'i ddrafftio ar gyfer Hydref 2022-23</p> <p>Recriwtio Swyddog cyfathrebu penodol yn chwarter 2 2023 gyda sgiliau iaith Cymraeg 3+</p> |
| Brandio | Pentre Awel yw'r brand 'ymbarél'. Fodd bynnag, dylai unrhyw is-frandiau neu enwau adeiladau (e.e. Business @ Pentre) roi'r un amlygrwydd i'r Gymraeg. | <ul style="list-style-type: none"> • Monitro trwy'r Grŵp Cyfathrebu • Ymwybyddiaeth partneriaid trwy'r Grŵp Cyfathrebu • Annog unrhyw is-frandiau i fabwysiadu hunaniaeth Gymraeg neu ddwyieithog a chynnig cyngor i unrhyw fusnesau / sefydliadau partner yn hyn o beth | Cyngor Sir Caerfyrddin Tenantiaid Parth 1 a phartneriaid prosiect | Tachwedd 2022 – Logo a chanllawiau brand wedi eu diweddaru i adlewyrchu 'Llanelli' o fewn y brand, yn dilyn adborth gan fusnesau lleol. Mae'r fersiwn newydd yn gwbl ddwyieithog. |
| Arwyddion | Mae angen strategaeth dda i ganfod y ffordd ym Mhentre Awel i sicrhau adeilad defnyddiadwy a hygyrch y gellir mynd o'i amgylch yn hwylus. | <ul style="list-style-type: none"> • Gosod arwyddion dwyieithog – ffisegol a digidol – o fewn adeilad Parth 1 a'r mwynderau o'i amgylch (e.e. maes parcio, safle bws) | Cyngor Sir Caerfyrddin BYUK | Strategaeth arwyddion i'w datblygu ymhellach gan BYUK a'r tîm dylunio yn ystod y cyfnod adeiladu. |

| Gweithgaredd | Disgrifiad/Trosolwg | Camau gweithredu/Cyfleoedd | Rhanddeiliaid/Adnoddau | Diweddariad |
|--|---|--|--|---|
| CAFFAEL AC ADEILADU | | | | |
| Penodi Prif Contractwr ar gyfer Parth 1 | <ul style="list-style-type: none"> Bydd disgwyl i'r contractwr llwyddiannus a benodir i ddylunio ac adeiladu Parth 1 roi rhaglen gynhwysfawr o fuddion cymunedol ar waith Dylai'r rhaglen buddion cymunedol geisio hyrwyddo'r Gymraeg, diwylliant a mentergarwch ar draws pedair colofn allweddol: <ul style="list-style-type: none"> Recriwtio a hyfforddi wedi'u targedu Mentrau addysg Ymgysylltu cymunedol Cadwyn gyflenwi | <ul style="list-style-type: none"> Ystyried addasiad i raniad pris/ansawdd (yn draddodiadol 70:30) a ddefnyddir i sgorio contractwyr tendro i roi mwy o amlygrwydd i effaith economaidd-gymdeithasol / buddion cymunedol Dogfennaeth dendro i adlewyrchu pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru Ymchwilio i gynnwys y Gymraeg mewn perthynas â recriwtio a hyfforddi (gan gynnwys prentisiaethau), cadwyn gyflenwi ac ymgysylltu â'r gymuned Gweld a all sefydliadau Cymreig helpu i gefnogi'r gwaith o ddarparu gweithgareddau Buddion Cymunedol priodol. Sicrhau cynrychiolaeth o'r Gymraeg yng nghyfarfod grŵp rhanddeiliaid buddion cymunedol BYUK | Cyngor Sir Caerfyrddin Caffael Cyfran 6 o SWWRFC | <ul style="list-style-type: none"> Tendr Parth 1 wedi'i osod ym mis Mai 2021 trwy SWWRFC. Gwerthusiad Awst 2021 gan ddefnyddio methodoleg pris 40% / 60% o ansawdd Iaith Gymraeg a diwylliant wedi ei adlewyrchu yn y dogfennau tendro Hydref 2021 - Penodi Bouygues UK yn contractwr Parth 1 Ionawr 2022 - Nina Williams wedi ei phenodi'n ymgynghorydd Buddiannau Cymdeithasol BYUK ac yn siarad Cymraeg Chwefror 2022 – Cynnwys Swyddog Datblygu'r Gymraeg ar y Grŵp Gwaith Buddiannau Cymunedol i adnabod cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn rhaglen buddiannau cymdeithasol y contractwr |
| Buddion cymunedol – recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu (RHT) | Bydd BYUK yn darparu 4,680 o wythnosau person o recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu, wedi'u rhannu i'r categorïau canlynol: prentis, hyfforddai/profiad gwaith ac wythnosau newydd-ddyfodiaid | Er bod hon yn broses dan arweiniad BYUK, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn annog ac yn hwyluso ymgysylltu ag ysgolion cyfrwng Cymraeg | BYUK Cyngor Sir Caerfyrddin | Tachwedd 2022 – cytunwyd ar dargedau trosfwaol ar gyfer Hyfforddi wedi'u Targedu gyda BYUK Chwefror 2023 – Bydd BYUK yn cynnal 'hybiau cyflogi' misol ar y |

| Gweithgaredd | Disgrifiad/Trosolwg | Camau gweithredu/Cyfleoedd | Rhanddeiliaid/Adnoddau | Diweddariad |
|--|---|---|--|---|
| | | | | safle i baru ymgeiswyr gyda chyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth addas. CSG i holi i BYUK i ystyried rolau a sgiliau Cymraeg |
| Buddion Cymunedol – Ymgysylltu gyda'r Gadwyn Gyflenwi | <ul style="list-style-type: none"> Bydd Bouygues UK yn ymwneud â'r Prosiect rhwng Hydref 2021 a Medi 2024 Bydd y Contractwr yn tendro pecynnau gwaith i'r gadwyn gyflenwi (e.e. lloriau, tirlunio, Rhaglen Moderneiddio Addysg a phaentio ac addurno) | <ul style="list-style-type: none"> Cynnwys Helo Blod / Tîm yr Iaith Gymraeg mewn digwyddiadau 'Cwrdd â'r Prynwr' (e.e. stand pop-up) i ddangos y cymorth a'r cyngor Cymraeg sydd ar gael i fusnesau. Bydd hyn yn gwella sgiliau o fewn y gadwyn gyflenwi ac yn rhoi cyfle gwych i fusnesau Cymru sicrhau tendr wrth dendro am becynnau gwaith. Darparu canllaw Cymraeg mewn busnes i gynorthwyo busnesau sydd â diddordeb mewn gweithio'n ddwyieithog Cyfeirio unrhyw gwmnïau sydd â >200 o weithwyr i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i weithio tuag at y Cynnig Cymraeg Codi ymwybyddiaeth busnesau sydd â llai na 200 o gymorth <i>Helo Blod</i> i hybu'r Gymraeg Bydd BYUK yn adrodd ar ddadansoddiad daearyddol y pecynnau gwaith a ddyfarnwyd i is-gontractwyr | BYUK Cyngor Sir Caerfyrddin Helo Blod Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg | <p>Cynhaliwyd digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr ym Mharc y Scarlets ar 20 Mawrth 2022. Roedd swyddog lleol Helo Blod yn bresennol</p> <p>Awst 2022 – pecynnau gwaith wedi'u tendro i'r farchnad ar gyfer prisio</p> |
| Buddion Cymunedol - Mentrau Addysg | Bydd BYUK yn cyflwyno mentrau addysg o fewn ysgolion lleol i godi ymwybyddiaeth o yrfaedd yn ymwneud ag adeiladu. | <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn rhan o ymgysylltiad ysgolion Recriwtio llysgenhadon o ysgolion cyfrwng Cymraeg Darparu deunydd yn ddwyieithog, lle bo modd | BYUK Cyngor Sir Caerfyrddin Ysgolion lleol | <p>BYUK i fynychu gwasanaethau ysgol i hyrwyddo a recriwtio ar gyfer y Cynllun Llysgenhadon Myfyrwyr.</p> <p>Gorffennaf 2022 – Mae BYUK wedi ymgysylltu ag Ysgol y Strade, i ddarparu gweithgaredd</p> |

| Gweithgaredd | Disgrifiad/Trosolwg | Camau gweithredu/Cyfleoedd | Rhanddeiliaid/Adnoddau | Diweddariad |
|---|--|--|--|---|
| | | | | <p>Tetrahedron trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Mawrth 2023 – recriwtio llysgenhadon myfyrwyr yn Ysgol y Strade</p> |
| <p>Buddion Cymunedol - Mentrau Cymunedol</p> | <p>Bydd BYUK yn darparu ystod o weithgareddau cymunedol i gynnwys pobl leol yn y prosiect.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Sir Caerfyrddin i ddarparu gwasanaeth cyfieithu i BYUK i sicrhau bod y Cylchlythyr Cymunedol ar gael yn ddwyieithog • Cefnogi Llysgenhadon Cymunedol i ddefnyddio'r Gymraeg (e.e. hyfforddiant ac uwchsgilio) • Sicrhau deunyddiau dwyieithog (pop-ups, byrddau arddangos) a siaradwyr Cymraeg yn y digwyddiad cymunedol arfaethedig yng Nghlwb Cymdeithasol y Morfa • Edrych ar y posibiladau o fentrau cymunedol i hybu'r Gymraeg • Cyfle i BYUK weithio gyda'r Fenter a/neu ddatblygu/noddi mentrau ar gyfer yr Eisteddfod | <p>BYUK Cyngor Sir Caerfyrddin</p> | <p>Dosbarthwyd Rhifyn 1 o'r Llythyr Newyddion Cymunedol ym mis Gorffennaf 2022.</p> <p>Dosbarthwyd rhifyn 2 o'r Llythyr Newyddion Cymunedol ym mis Tachwedd 2022.</p> <p>Bydd digwyddiad arloesol a chymunedol yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2023.</p> <p>Bydd BYUK yn adrodd ar nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol drwy Pecyn Cymorth Llywodraeth Cymru a'r Porth Buddiannau cymdeithasol. Er enghraifft: NTW80- Cefnogaeth a buddsoddiad a ddarparwyd i bobl ddysgu a defnyddio'r Gymraeg NTW81- Cefnogaeth a buddsoddiad ddarparwyd i bobl i ymwneud â digwyddiadau celfyddydol, diwylliannol a chelfyddydol Cymraeg</p> |
| <p>Arlwyo</p> | <p>Bydd gan Bentre Awel gyfleuster arlwy o fewn Parth 1, wedi'i leoli'n ganolog yn yr ardal 'stryd'. Mae hyn yn cynnwys ardal eistedd a gweini. Mae'r gweithredwr a ffefrir ar gyfer y caffi dan</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltu â Thîm Polisi Iaith Gymraeg yn dilyn datblygu Cynllun Busnes ar gyfer model mewnol. • Ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi leol i hyrwyddo bwydydd a chynnyrch Cymreig o fewn y cynnig | <p>Cyngor Sir Caerfyrddin</p> | |

| Gweithgaredd | Disgrifiad/Trosolwg | Camau gweithredu/Cyfleoedd | Rhanddeiliaid/Adnoddau | Diweddariad |
|---|---|--|---|---|
| | ystyriaeth. Mae cynllun busnes yn cael ei ddatblygu i arfarnu opsiynau darparwr mewnol yn erbyn darparwr allanol. | <p>arlwyo (e.e. ffermwyr lleol yn darparu peiriannau gwerthu llaeth)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bwydlenni dwyieithog a darparu prydau Cymreig i hybu diwylliant Cymru • Staffio – os yw'n fodel mewnol, pennu lefel iaith ar gyfer swyddi a fydd yn galluogi gwasanaeth dwyieithog mewn lleoliadau • Staffio - annog staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg a gwisgo bathodynau 'iaith Gwaith' i hyrwyddo eu bod yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog • Os yw'n fodel allanol/fasnachfrait, cynnwys ystyriaethau'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig o fewn y broses dendro – e.e. gwasanaeth llafar dwyieithog, arwyddion, bwydlenni, cynnyrch/prydau lleol a Chymreig | | |
| ADDYSG, SGILIAU A HYFFORDDIANT | | | | |
| Cyrsgiau a rhaglenni Prentisiaethau a lleoliadau | <p>Nod Pentre Awel yw darparu continwom o ddarpariaeth addysg a hyfforddiant o fod yn barod am waith i AB, AU a DPP. Yn y tymor byr a chanolig, bydd hyn yn mynd i'r afael â meysydd o brinder sgiliau wrth gyflawni gweledigaeth tymor hwy o feithrin y genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol i weithio ym Mhentre Awel a chadw talent o fewn y rhanbarth.</p> <p>Bydd y cyrsiau sydd i'w cyflwyno ym Mhentre Awel yn cyd-fynd â'r gwasanaethau sydd i'w darparu ar draws pob cam o'r cynllun a byddant yn ategu 'ecosystem' Pentre Awel. Gallai</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Ymgymryd â chynllunio gweithlu priodol a dadansoddi anghenion hyfforddiant / sgiliau • Rhoi sylw i gyfleoedd i ddarparu cyrsiau neu fodiwlau pellach ac uwch trwy gyfrwng y Gymraeg • Ymgysylltu â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i edrych ar gyfleoedd ariannu. Tîm y Prosiect i ddrafftio e-bost rhagarweiniol i'r Coleg Cymraeg sy'n rhoi sylw i gynlluniau ar gyfer addysg a hyfforddiant ym Mhentre Awel, gyda golwg ar drefnu cyfarfod i drafod ymhellach, mewn partneriaeth â'r Drindod / Coleg Sir Gâr • Gall menter Sgiliau a Thalent y Fargen Ddinesig ddarparu cyllid i ddatblygu cyrsiau a rhaglenni hyfforddi newydd nad ydynt yn cael eu darparu yn y rhanbarth ar hyn o bryd. Os nodir unrhyw fylchau sgiliau, bydd angen chwilio am gyfleoedd i | Cyngor Sir Caerfyrddin PCYDDS Prifysgol Caerdydd Prifysgol Abertawe Coleg Sir Gâr Menter Sgiliau a Thalent y Fargen Ddinesig | <p>Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Coleg Cymraeg ym mis Chwefror 2022.</p> <p>Gorffennaf 2022 - ymarfer mapio wedi'i gwblhau i olrhain y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ar draws y rhanbarth.</p> <p>Tachwedd 2022 - Ymarfer cynllunio a datblygu'r gweithlu ar y gweill i gysoni rôl swyddi yn y dyfodol ym Mhentre Awel â chyrsgiau/cymwysterau a ddarperir ar draws y rhanbarth (fel y nodwyd yn yr ymarfer mapio</p> |

| Gweithgaredd | Disgrifiad/Trosolwg | Camau gweithredu/Cyfleoedd | Rhanddeiliaid/Adnoddau | Diweddariad |
|--------------|---|---|------------------------|--|
| | <p>hyn gynnwys: meddygaeth, fferylliaeth, optometreg, deintyddiaeth, ffisiotherapi, iechyd a gofal</p> <p>Ymgysylltwyd ag ystod eang o sefydliadau addysg. Mae trafodaethau ar y gweill i gadarnhau natur eu darpariaeth.</p> | <p>ddatblygu cymwysterau, cyrsiau a modiwlau sy'n hygyrch i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio'r cyllid hwn ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg / elfennau o gyrsiau nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd? • Swyddog Iaith Gymraeg i helpu i gefnogi gwaith y grŵp ffrwd gwaith Addysg • Ymgysylltu ag ysgolion i godi ymwybyddiaeth o yrfaedd y dyfodol ym Mhentre Awel a chynnwys neges ar bwysigrwydd sgiliau Cymraeg, yn enwedig yn y sectorau gofal a hamdden • Ystyried ymgyrch neu gyfleoedd i bwysleisio pa mor ddefnyddiol yw sgiliau Cymraeg ar bob lefel o fewn y proffesiwn gofal, mewn partneriaeth â PCYDDS • Pan fydd cwrpas y gweithgaredd addysg a hyfforddiant ym Mhentre Awel wedi'i gwblhau, bydd angen ystyried ymgyrch hyrwyddo i hyrwyddo cyrsiau, prentisiaid a lleoliadau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg. • Asesiad / ymrwymiad parhaus - parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth o fodiwlau/cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg pan fydd Pentre Awel yn weithredol • Mabwysiadu Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol • Ymgysylltu â Phrifysgol Aberystwyth i ddeall ei strategaeth ar gyfer darparu 50% o gyrsiau nyrsio trwy gyfrwng y Gymraeg • Ystyried Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu gytundeb arall rhwng partneriaid / tenantiaid y prosiect i gytuno ar ymrwymiad i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg ym Mhentre Awel (e.e. darparu gwasanaethau, cynllunio'r gweithlu) | | <p>diweddar). Fel rhan o'r dadansoddiad hwn, bydd darpariaeth Gymraeg y cyrsiau presennol yn cael ei chofnodi er mwyn helpu i lywio cynllunio / trafodaethau yn y dyfodol.</p> <p>Mawrth 2023 – ail-ymgysylltu â'r Coleg Cymraeg</p> |

| Gweithgaredd | Disgrifiad/Trosolwg | Camau gweithredu/Cyfleoedd | Rhanddeiliaid/Adnoddau | Diweddariad |
|-------------------------|--|---|--|---|
| Academi Iechyd a Gofal | <ul style="list-style-type: none"> Byddai'r Academi Gofal arfaethedig yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu sgiliau, gan gynnwys Datblygiad Proffesiynol Parhaus i weithwyr Cyngor Sir Caerfyrddin a'r sector preifat Gallai'r Gymraeg fod yn rhan annatod o'r rhaglenni hyfforddi | <ul style="list-style-type: none"> Ystyried darpariaeth Gymraeg o fewn cynllunio/cwmpasu Academi Iechyd a Gofal gan gydnabod yr effaith gadarnhaol ar ddeilliannau | Cyngor Sir Caerfyrddin PCYDDS | |
| Sgiliau Cymraeg | Mae Pentre Awel wedi ei leoli mewn ardal/ward ddaearyddol sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae ganddi hefyd amrywiaeth o broffiliau ieithyddol, gyda Saesneg, Cymraeg a Phwyleg ymhlith yr ieithoedd a siaradir. Targed Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 | <ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda rhaglenni cyflogadwyedd gan gynnwys Gweithffyrdd a Chymunedau am Waith Cyflwyno cyrsiau Cymraeg, diwrnodau blasu ac ati ym Mhentre Awel, gan dargedu trigolion lleol, busnesau, sefydliadau ac aelodau o'r gymuned ehangach Edrych ar gyfleoedd trwy Ddysgu a Datblygu, Cyngor Sir Caerfyrddin – Ymgynghorydd y Gymraeg | Cyngor Sir Caerfyrddin | |
| Yr Urdd | Bydd Llanymddyfri yn cynnal Eisteddfod yr Urdd yn 2023. | <ul style="list-style-type: none"> Cyfle i BYUK noddi cystadleuaeth neu wobwr i hybu sgiliau a gyfaoedd STEM/adeiladu Cyfle i godi ymwybyddiaeth o Bentre Awel | Cyngor Sir Caerfyrddin BYUK | I'w drafod yng nghyfarfod Grwp rhanddeiliaid Buddion cymdeithasol yn Mawrth 2023 Cyfarfod benodol ar yr iaith Gymraeg a diwylliant gyda BYUK Mawrth 23 |
| CANOLFAN HAMDDEN | | | | |
| | Bydd Pentre Awel yn darparu cyfleusterau hamdden gwlyb a sych o'r radd flaenaf, yn lle'r ganolfan hamdden bresennol yng nghanol tref Llanelli. Bydd Pentre Awel yn cynnig y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Pwll nofio 25m â 8 lôn | <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod staff yn normaleiddio'r Gymraeg drwy gyfarch yn Gymraeg Sicrhau bod staff yn cael gweld fideo hyfforddi staff y cyngor ar ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyflwyno hyfforddiant chwaraeon | CSG Clybiau Chwaraeon Chwaraeon Cymru Urdd Coleg Cymraeg | Mae Proffiliau Swydd gwasanaethau Rheng flaen yn gofyn am sgiliau iaith lefel 3+ gyda hyfforddiant ar gael i gyrraedd y lefel pe bo angen. Bydd hyn yn digwydd yn Nghanolfan hamdden PA |

| Gweithgaredd | Disgrifiad/Trosolwg | Camau gweithredu/Cyfleoedd | Rhanddeiliaid/Adnoddau | Diweddariad |
|--------------|---|--|------------------------|---|
| | <ul style="list-style-type: none"> • Pwll i ddysgwyr • Pwll hydrotherapi • Campfa • Neuadd chwaraeon 8 cwrt s • Ystafelloedd amlbwrpas • Stiwdio ddawns | <ul style="list-style-type: none"> • Cynllunio a darparu darpariaeth ddwyieithog ar draws holl weithgarwch y ganolfan hamdden ac archwilio'r posibilïadau o ddarparu sesiynau Cymraeg • Archwilio'r posibilïad o ganfod data cywir am ddewis iaith drwy borth cofrestru electroneg • Sicrhau bod gwasanaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnig yn ragweithiol i gwsmeriaid a bod deunyddiau marchnata yn amlygu natur ieithyddol y gweithgaredd • Defnyddio'r ganolfan ar gyfer hyfforddi hyfforddwyr chwaraeon y dyfodol, o arweinwyr chwaraeon ifanc i hyfforddwyr clwb sy'n gallu darparu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg (mewn partneriaeth posibl â'r Coleg Cymraeg, y Cyngor Chwaraeon a'r Urdd) gan ddarparu tystysgrif debyg i'r Coleg Cymraeg i ddilysu gallu'r unigolyn i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg • Dosbarthu'r holl ddeunyddiau am hybu'r Gymraeg mewn chwaraeon sydd ar gael gan Gomisiynydd y Gymraeg a Chyngor Sir Caerfyrddin i bob defnyddiwr posibl (clybiau, busnesau ayb). • Archwilio cyfleoedd i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fusnesau chwaraeon a hamdden, megis gweithgareddau awyr agored, gan ddefnyddio'r ganolfan hamdden fel canolfan, yn debyg i'r gwaith a wneir gan Camu yn y Gogledd Orllewin. Gallai meysydd eraill o fusnesau newydd dwyieithog gynnwys llesiant ac ioga ac ati. | | <p>Mae Canolfannau hamdden y Cyngor Sir yn sicrhau arwyddion parhaol a dros dro sy'n cyd-fynd a gofynion y Safonau. Bydd hyn yn digwydd yng Nghanolfan hamdden PA</p> <p>Mae disgwyl i holl glybiau a busnesau sy'n defnyddio Canolfannau hamdden y cyngor llynu wrth Safonau'r Gymraeg. Bydd hyn yn digwydd hefyd yng Nghanolfan hamdden PA.</p> |

| Gweithgaredd | Disgrifiad/Trosolwg | Camau gweithredu/Cyfleoedd | Rhanddeiliaid/Adnoddau | Diweddariad |
|--|---|---|--|-------------|
| | | <ul style="list-style-type: none"> Annog clybiau hamdden cyfrwng Cymraeg newydd megis grwpiau cerdded ac ati i ddechrau gan ddefnyddio'r ganolfan hamdden fel man cyfarfod. | | |
| IECHYD A LLESIANT (CANOLFAN DARPARIAETH GLINIGOL) | | | | |
| Gwasanaethau | <ul style="list-style-type: none"> Bydd ystod eang o wasanaethau iechyd yn y gymuned yn cael eu darparu ym Mhentre Awel, gan gynnwys ffisiotherapi, eiddilwch, iechyd meddwl a gwasanaethau plant. | <ul style="list-style-type: none"> Gweithredu'r Fframwaith Strategol 'Mwy na Geiriau' a chynllun gweithredu 2022-27 i gefnogi siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau yn eu dewis iaith (h.y. y 'Cynnig Rhagweithiol'). Tîm Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin i ddatblygu cyflwyniad modiwlaidd pwrpasol y gellir ei addasu i wahanol grwpiau ffrwd waith. Bydd y cyflwyniad yn hyrwyddo'r Gymraeg ym Mhentre Awel, gan gwmpasu Safonau'r Iaith Gymraeg, Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a mwy na geiriau. Ystyried Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu gytundeb arall rhwng partneriaid / tenantiaid y prosiect i gytuno ar ymrwymiad i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg ym Mhentre Awel (e.e. darparu gwasanaethau, cynllunio'r gweithlu) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda Cyngor Sir Caerfyrddin | |
| BYW Â CHYMORTH (PARTHAU 2 A 3) | | | | |
| Mynediad at Wasanaethau | Bydd Parthau 2 a 3 yn darparu 'continwmm' o lety byw â chymorth ar draws continwmm gofal, o fflatiau ac anheddau ar gyfer y rhai ag anghenion gofal sylfaenol, i ofal ychwanegol a chartref nyrsio i bobl ag anghenion mwy aciwt. | <ul style="list-style-type: none"> Ymgorffori o fewn arferion gwaith y 'Cynnig Rhagweithiol' 'Mwy na geiriau' sy'n gosod y cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal i gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddiodyn, yn hytrach na bod defnyddwyr gwasanaeth yn gofyn amdanynt. | Cyngor Sir Caerfyrddin | |
| Byw'n Annibynnol Unigrwydd ac arwahanrwydd | Mae'r cais cynllunio amlinellol ar gyfer Pentre Awel yn caniatáu hyd at 370 o unedau/gwelyau byw â chymorth ar draws ystod o fathau o lety/defnydd. O'r | <ul style="list-style-type: none"> Gallai agosrwydd Pentre Awel at ysgolion a gwasanaethau lleol ar y safle hwyluso gweithgareddau rhwng cenedlaethau (e.e. canu, prosiectau hanes, technoleg, codi sbwriel, tyfu | Cyngor Sir Caerfyrddin Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | |

| Gweithgaredd | Disgrifiad/Trosolwg | Camau gweithredu/Cyfleoedd | Rhanddeiliaid/Adnoddau | Diweddariad |
|--|--|--|---|-------------|
| | herwydd, bydd darpariaeth ar gyfer nifer uchel o bobl hŷn ar y safle. Mae'n bwysig iawn fod Pentre Awel yn ddatblygiad cynhwysol sy'n hybu llesiant corfforol a meddyliol trigolion a defnyddwyr gwasanaeth. | <p>bwyd) rhwng disgyblion Cymraeg a thrigolion Cymraeg yn y cyfleusterau byw â chymorth – lleihau'r risg o unigrwydd ac arwahanrwydd ac annog defnydd o'r Gymraeg</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwysigrwydd sgwrsio â demograffeg hŷn yn eu dewis iaith, yn enwedig y rhai â salwch dirywiol fel dementia. Yn gyffredinol, dengys ystadegau fod cyfran y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu'n raddol yn ôl oedran ymhlith y garfan ddemograffig hŷn | | |
| DATBLYGU BUSNES | | | | |
| Cyfleusterau deori / sbarduno busnesau | <p>Bydd Pentre Awel yn darparu cyfleusterau deori a sbarduno i feithrin a chefnogi busnesau ac entrepreneuriaid newydd o fewn gwyddorau bywyd a sectorau cysylltiedig.</p> <p>Mae hyn yn debygol o gynnwys man swyddfa a labordy ar gyfer busnesau ac ymchwilwyr</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo manteision defnyddio'r Gymraeg mewn busnes i fusnesau newydd/egin-fusnesau • Cyfle i wreiddio'r Gymraeg er mwyn ennill mantais gystadleuol • Cyfeirio at gefnogaeth ac adnoddau am ddim • Rhoi cymorth i gwmnïau sefydlu arferion busnes da – e.e. gwasanaethau dwyieithog, brandio/arwyddion dwyieithog, marchnata'r Gymraeg, recriwtio, creu gwefan • Cyfeirio at gymorth, adnoddau a hyfforddiant am ddim (e.e. Canllaw Cymraeg mewn busnes Cyngor Sir Caerfyrddin; Helo Blod; Comisiynydd y Gymraeg; Llywodraeth Cymru; Busnes Cymru) | <p>Datblygu economaidd Cyngor Sir Caerfyrddin</p> <p>Cyngor Sir Caerfyrddin - Polisi</p> <p>Banc Datblygu Cymru (l'w gadarnhau)</p> | |
| Swyddi | Nod Pentre Awel yw darparu 1,800 o swyddi ar draws pob cyfnod datblygu | <ul style="list-style-type: none"> • Trwy wella ffyniant economaidd (swyddi, hyfforddiant) a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd, gall Pentre Awel helpu i gadw siaradwyr Cymraeg yn y sir. • Pennu gofyniad iaith Lefel 3 ar swyddi lle bo hynny'n ymarferol | | |

| Gweithgaredd | Disgrifiad/Trosolwg | Camau gweithredu/Cyfleoedd | Rhanddeiliaid/Adnoddau | Diweddariad |
|---|--|---|------------------------|--|
| Diwylliant | | | | |
| Celfyddydau perfformio / gweithgareddau awyr agored | Bydd Pentre Awel yn cadw ardal werdd agored fawr i'r gogledd o'r llyn. Dylai'r ardal hon helpu i wella iechyd a llesiant y boblogaeth, meithrin cysylltiadau â natur/amgylchedd awyr agored a chynnig cyfleoedd ar gyfer dysgu yn yr awyr agored. | <ul style="list-style-type: none"> Cynnull gweithdy aml-randdeiliaid i edrych ar syniadau ar gyfer gweithgareddau a mentrau awyr agored Gallai amffitheatr awyr agored ddarparu cyfleoedd ar gyfer perfformiadau Cymraeg. Mae PCYDDS yn cyflwyno cwrs 'celfyddydau perfformio' drwy gyfrwng y Gymraeg. | | Cynhaliwyd Gweithdy rhithwir ar 4 Tachwedd 2021, gan lunio rhestr hir o syniadau ar gyfer gweithgareddau awyr agored. Cyfarfod Gweithgor Mannau Awyr Agored i werthuso'r rhestr hir a chyflwyno rhestr fer i'w hystyried yn fanwl. |
| Eraill | | | | |
| Digidol | Bydd angen seilwaith digidol cenhedlaeth nesaf ym Mhentre Awel i fanteisio i'r eithaf ar fuddion iechyd ac economaidd (e.e. teleofal), denu busnesau/sefydliadau ymchwil a darparu mainc arbrofi cwbl weithredol ar gyfer treialu cynhyrchion a gwasanaethau ar y safle. | <ul style="list-style-type: none"> Ymgysylltu â phrosiect seilwaith y Fargen Ddinesig Edrych ar gysylltiadau gyda'r Egin | | Seilwaith TG a chysylltedd yn cael eu datblygu gan BYUK yn ystod y cam cyn-adeiladu mewn ymgynghoriad â Chyngor Sir Caerfyrddin. |